



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

Gwybodaeth i sefydliadau a phobl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant, neu'n gofalu amdanynt, y tu allan i addysg a gofal plant ffurfiol

Mae cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru. Rydyn ni eisiau amddiffyn plant a'u hawliau, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddyn nhw.

Ydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant, neu'n gofalu amdanynt mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio (y rhai nad ydynt yn cael eu rheoleiddio/arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru)? Er enghraifft, mewn clybiau chwaraeon, grwpiau ieuentid, clybiau gweithgareddau, clybiau y tu allan i'r ysgol heb eu cofrestru, grwpiau ffydd neu leoliadau gwarchod plant.

Os felly, dyma beth sydd angen i chi ei wybod am y gyfraith newydd.

### Beth yw cosb gorfforol?

Mae sawl math o gosb gorfforol. Fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd. Ond mae mathau eraill hefyd.

Mae'n amhosibl rhestru pob math o gosb gorfforol. Gall fod yn unrhyw ddull o gosbi plentyn gan ddefnyddio grym corfforol. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosb gorfforol fod yn niweidiol i blant.



### A yw'r gyfraith hon yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Ydy, mae'n berthnasol i bawb – rhieni neu unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn tra bo'r rhiant yn absennol.

Ac fel gyda chyfreithiau eraill, mae'n berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.

Mae cosbi corfforol wedi bod yn anghyfreithlon mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maeth awdurdodau lleol a lleoliadau gofal plant ers peth amser.

### Beth yw'r gyfraith ynghylch cosbi corfforol yng Nghymru?

- Mae cosbi corfforol o unrhyw fath yn anghyfreithlon yng Nghymru.
- Mae gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion.
- Mae hyn yn golygu bod y gyfraith yn glir - hawdd i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

Stopio Cosbi  
Corfforol

Ending Physical  
Punishment



## Beth sy'n digwydd os bydd pobl yn cosbi plentyn yn gorfforol?

Os bydd unrhyw un yn cosbi plentyn yn gorfforol:

- bydd yn torri'r gyfraith
- mae perygl y caiff ei arestio neu ei gyhuddo o ymosod
- efallai y caiff gofnod troseddol, sydd yr un fath ar gyfer unrhyw drosedd.

Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i unrhyw un sydd ei angen, i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad plant, i helpu i osgoi sefyllfa o'r fath.

## Beth ddylwn i ei wneud os byddaf i'n gweld plentyn yn cael ei gosbi'n gorfforol neu os ydw i'n poeni am blentyn?

- Cysylltwch â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol.
- Gallwch hefyd ffonio'r heddlu mewn argyfwng neu os yw plentyn mewn perygl.

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Dylech barhau i wneud yn siŵr eich bod yn gwybod y diweddaraf am ganllawiau a hyfforddiant sy'n berthnasol i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am stopio cosbi corfforol yng Nghymru, ewch i: [llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol](https://llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol)

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso: [diogelu.cymru](https://diogelu.cymru)

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Canllaw Arfer); mae canllaw arfer sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol, ar gael yma:

[Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\) 2020](#)

Mae *Magu Plant. Rhowch amser iddo* yn cynnig tips a chngor arbenigol ar fagu plant mewn modd cadarnhaol i annog ymddygiad da gan blant a dewisiadau eraill yn lle cosb gorfforol. Mae gan yr ymgyrch dudalen we ar gyfer [cymorth ar rianta](#) sy'n cynnwys dolenni i gymorth a llinellau cymorth pellach i rieni.

Mae cymorth a chngor magu plant cyffredinol ar gael gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a'ch awdurdod lleol, gan gynnwys [Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd](#).

Rhaglenni cymorth cynnar fel [Dechrau'n Deg](#) (os ydych yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg) a [Teuluoedd yn Gyntaf](#).

Mae'r oes wedi newid. Mae agweddau wedi newid.  
Does dim lle i gosbi corfforol mewn Cymru fodern.

